Gweler ein Cynllun Adeiladau Cymorth Dydd Brys ar gyfer COVID-19 sy'n nodi pa adeiladau yn Abertawe sydd ar agor ar hyn o bryd ac yn darparu cymorth dydd a faint o bobl y gallant eu derbyn o ganlyniad i'r mesurau cadw pellter. Mae'r adeiladau hyn wedi'u nodi i'w hagor yn gyntaf mewn ymateb i alw, a, gan mai diogelwch yw ein prif bryder, bydd yr adeiladau sydd fwyaf addas ar gyfer cadw pellter cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n gyntaf. Bydd y Cynllun Adeiladau hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

Mae gweithwyr cymdeithasol ar gael i drafod eich sefyllfa bresennol ac i gynnig unrhyw gefnogaeth y gallai fod ei hangen arnoch ac rydym yn eich annog i gysylltu â nhw i drafod eich anghenion cymorth dydd, i archwilio'n fanylach yr opsiynau sydd gennym wedi'u rhestru yma a'r trefniadau y gellid eu rhoi ar waith i chi. Cysylltwch â'ch Gweithiwr Cymdeithasol drwy ffonio 01792 614100, neu'r Pwynt Mynediad Cyffredin trwy e-bostio PMC@abertawe.gov.uk neu ffonio 01792 636519.

Cynllun Adeiladau Cymorth Dydd Brys ar gyfer COVID-19			
Cymorth Dydd yn cael ei ddarparu yn:	**Yn gweithredu ar hyn o bryd**	**Cyfanswm nifer y defnyddwyr gwasanaeth dyddiol**	**Sylwadau Ychwanegol**
Prif safle Fforest-fach	YDY	25 y dydd	Adeilad yn hygyrch. Os yw'r gefnogaeth yn 1:1, efallai bydd angen lleihau'r nifer i'w derbyn oherwydd niferoedd y bobl sydd yn yr adeilad a'r gofynion cadw pellter cymdeithasol
Adeilad Tŷ Lafant, Fforest-fach	YDY	3 y dydd	Nid yw'r adeilad yn addas ar gyfer unigolion ag anableddau corfforol oherwydd y lle sydd ar gael Ddim yn addas ar gyfer cefnogaeth 1:1
Adeilad Fforest-fach/Abergelli	YDY	8 y dydd	Adeilad yn hygyrch. Os yw'r gefnogaeth yn 1:1, efallai bydd angen lleihau'r nifer i'w derbyn oherwydd niferoedd y bobl sydd yn yr adeilad a'r gofynion cadw pellter cymdeithasol

Adeilad Glandŵr	YDY	5 y dydd i fyny'r grisiau 4 y dydd lawr llawr	Nid yw'r adeilad yn addas ar gyfer unigolion ag anableddau corfforol
Y Prosiect Byrnwr	YDY	6 y dydd	Prosiect yn gysylltiedig â Chefnogaeth Dydd Fforestfach
Adeilad Gellifedw	YDY	6 y dydd	
Canolfan Gymdeithasol Gorseinon	YDY	10 y dydd	
Adeilad Parkway	YDY	6 y dydd	Adeilad yn hygyrch. Os yw'r gefnogaeth yn 2:1, efallai y bydd angen lleihau'r nifer i'w derbyn oherwydd niferoedd y bobl sydd yn yr adeilad a'r gofynion cadw pellter cymdeithasol
Adeilad Bro Tawe	YDY	10 y dydd	
Adeilad Trewarren	YDY	6 y dydd	Adeilad yn hygyrch. Os yw'r gefnogaeth yn 1:1, efallai bydd angen lleihau'r nifer i'w derbyn oherwydd niferoedd y bobl sydd yn yr adeilad a'r gofynion cadw pellter cymdeithasol
Adeilad West Cross	YDY	8 y dydd	

Adeilad Whitethorns	YDY	6 y dydd	
CREST	YDY	6 y sesiwn. 2 sesiwn ddydd Mawrth a 2 sesiwn ddydd Iau	Pe bai atgyfeiriadau'n cynyddu yna byddai'r capasiti yn aros ar 6 y sesiwn ond rhoddir ystyriaeth i ychwanegu diwrnodau ychwanegol. Mae hyn i'w gadarnhau.
Adeilad Norton Lodge	YDY	8 y dydd	Byddai cymarebau staff a niferoedd gwirioneddol cleientiaid yn dibynnu ar anghenion y cleientiaid a glustnodir
Adeilad Gwasanaeth St Johns	YDY	8 y dydd	Byddai cymarebau staff a niferoedd y cleientiaid yn dibynnu ar anghenion y cleientiaid a glustnodir
Adeilad Toronto	YDY	8 y dydd	Nid yw'r adeilad yn addas ar gyfer unigolion ag anableddau corfforol. Yn dibynnu ar angen, efallai bydd angen cynyddu'r gymhareb staffio